**<u>Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin SEWR-05-01(agd)</u>**

**Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin ddydd Gwener 2 Tachwedd 2001 yng Bridgend Recreation Centre, Angel Street, Bridgend. Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 9.30am ac yn gorffen erbyn 1.00pm. Thema'r cyfarfod fydd cynlluniau'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gogyfer â Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn. Dyma gylch gorchwyl y Strategaeth:

"Y dylai pobl hyn yng Nghymru fod â'r hawl i fyw'n annibynnol a chydag urddas. Er mwyn eu helpu i gyflawni hyn, byddwn yn llunio strategaeth i ddarparu gwasanaethau mewn modd amserol a phriodol, i hybu eu hiechyd a'u lles, a'u galluogi i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth, i gyflawni eu potensial a chymryd cymaint o ran â phosibl."

Cyhoeddir yr agenda derfynol erbyn 26 Hydref.

Bydd cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yn y cyfarfod hwn.

**NB- Dylai'r cyhoedd nodi mai nifer cyfyngedig o seddi sydd yn yr oriel gyhoeddus ac fe'ch cynghorir i archebu lle ymlaen llaw. Gallwch wneud hyn drwy ffonio llinell archebu'r Cynulliad ar 029 2089 8477. Mae'r llinell archebu ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 4.30pm.**